

Y Penllywydd

Yng nghanol y delweddau erchyll diweddar o ymgais lluoedd milwrol Rwsia i oresgyn Wcráin gwelais lun a oedd yn ymddangos i mi yn wrthbwynt syfrdanol. Llun ydoedd o'r Arlywydd Putin mewn Eglwys Uniongred yng nghwmni uchel-offeiriadaeth yr eglwys honno. Roedden nhw'n dal icon Cristnogol yn eu dwylo mewn modd defodol, a hynny er mwyn i'r gwladweinydd fedru talu ei wrogaeth gyhoeddus iddo. Delwedd anghydnaws â'i weithredoedd rhyfelgar, gellid dadlau.

Mae perthynas gynyddol Putin ag Eglwys Uniongred Rwsia, yn enwedig y Patriarch Kirill, yn hysbys ddigon. Mae'n berthynas sydd wedi ei meithrin a'i hamlygu yn ystod y degawdau diweddar (Gweler *The Mighty and the Almighty*, Ben Ryan, 2017). I'r rhai sy'n gyfarwydd â hanes a diwylliant Rwsia, dydy hynny ddim yn syndod. Mae'r eglwys honno wedi bod yn rhan annatod o strwythurau grym a dylanwad yn Rwsia erioed – er iddi gael ei gwthio i'r cyron yng nghyfnod yr Undeb Sofietaidd. Ers Sgism Fawr 1054 bu perthynas symbiotig rhyngddi a'r drefn wleidyddol yn yr ymerodraethau Moscofaidd a Rwsiaidd. Un o amcanion strategol diweddar Putin fu adfer y berthynas honno a thrwy hynny gyfreithloni ei statws a'i ddylanwad.

Dydy pawb yn yr Eglwys Uniongred ddim yn gefnogol i safbwynt a pholisïau Kirill, wrth gwrs. Mae yna densynau o fewn yr eglwys yn Rwsia ynghylch y rhyfel. Ac mae Eglwys Uniongred Wcráin wedi cyhoeddi ei hannibyniaeth o fewn y teulu Uniongred yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Gellir olrhain y berthynas anniddig rhwng eglwys a gwladwriaeth yn ôl i ddyddiau Cystennin Fawr. Ac nid yn y dwyrain yn unig bu'r berthynas honno'n un amheus. Dros y canrifoedd bu pabau lu o fewn Eglwys Rhufain hefyd yn cymylu'r dyfroedd ac yn arfer dylanwad gwleidyddol a rhoi grym milwrol ar waith.



Llun: TAR-TASS / Alamy

Codwyd cwestiynau sylfaenol am berthynas yr Eglwys a gwladwriaethau seciwlar yn sgil y Diwygiad Protestannaidd, a bu'n thema barhaus yn nhrefodaethau anghydfurfwry 16ega'r 17eg ganrif. Roedd gweithiau Thomas Locke (1632–1704) yn ddylanwad radicalaidd ac fe ymgorfforwyd ymranïad eglwys a gwladwriaeth yng nghyfansoddiad Unol Daleithiau'r America yn 1788 dan ddylanwad Thomas Jefferson (1743–1826) ac eraill. Creu 'mur o wahanrwydd' yw'r union eiriad.

Nid oes gennym eglwys wladol yng Nghymru ers canrif bellach. Ond nid yw hynny wedi golygu ein bod yn medru osgoi wynebu'r tensiwn parhaus rhwng bod yn ddinasyddion teyrngar ar yr un llaw a gwasanaethu Crist ar y llall. Cofiw'n am ryfelgwn pulpudau'r 20fed ganrif – o sawl enwad. Ac mae geiriau cân Tecwyn Ifan, a heriodd safbwynt Archegob Runcie yn ystod Rhyfel y Malvinas, yn dal i atsain yn fy nghof.

Wrth fyfrio ar lun Putin a'r offeiriaid, daeth hanes Paul a Silas yn Thesalonica i'r

meddwl (Actau 17:1–9). Roedd eu pregethu a'u cenhadu wedi creu cynnwrf a therfysg yn y lle a bu'n rhaid i Jason a chredinwyr eraill ateb gerbron awdurdodau'r ddinas. A'r cyhuddiad? 'Y mae aflonyddwyr yr Ymerodraeth wedi dod yma hefyd ... y mae'r bobl hyn i gyd yn troseddu yn erbyn ordeiniadau Cesar trwy ddweud bod brenin arall, sef Iesu'.

Doedd dim yn sefydliadol am yr Eglwys Fore ac mae breichiau trugaredd Crist yn parhau i ymestyn dros ffiniau a muriau dynol. Mae pob tystiolaeth fod y breichiau cariadus hynny ar waith heddiw yn Wcráin – breichiau sy'n estyn cydymdeimlad, cymod, heddych a chyfiawnder i'r dioddefus. Mae'r breichiau hynny'n creu gwyrthiau'n ddyddiol, gwyrthiau a fydd ymhen amser yn drech nag unrhyw gyfundrefn, yn drech nag unrhyw ystryw a chyfleustra gwleidyddol, yn drech nag unrhyw deyrn. Fel y gwyddai Paul a Silas – Crist yw'r Penllywydd.

Gareth Ioan

(Addasiad o e-fwletin Cristnogaeth 21)

Rhyfel Wcráin – Apêl Ddyngarol Cymorth Cristnogol



Wrth i luoedd arfog Rwsia barhau i daro dinasoedd Wcráin yn galed, gan ddinistrio adeiladau a chartrefi a chreu ffoaduriaid wrth y miliynau, mae partner Cymorth Cristnogol yn gweithio ar y ffin rhwng y wlad a Hwngari.

Gan fod y ffoaduriaid wedi gorfod gadael yn sydyn, nid oes ganddynt ddim o'r angenrheidiau sylfaenol gyda hwy, ac felly mae cyflenwi bwyd, diod, citiau hylendid a lloches yn hollbwysig.

Mae'r partner – Hungarian Interchurch Aid – eisoes wedi anfon 28 tunnell (gwerth 400,000 ewro) o nwyddau, yn cynnwys bwyd a dŵr. Mae HIA wedi bod yn gweithio yn Wcráin am 25 mlynedd ac yn fwyaf diweddar wedi bod yn helpu gydag ymateb i'r pandemig.

Meddai Patrick Watt, pennaeth Cymorth Cristnogol, 'Mae Wcráin yn wynebu trychineb ddyngarol. Yn dilyn wyth mlynedd o ryfela, mae miloedd o fywydau wedi eu colli a channoedd o filoedd wedi eu dadleoli. Mae'r rhyfel presennol yn gosod llawer mwy mewn perygl.'



Mae miloedd o ffoaduriaid ar draws Wcráin yn ceisio lloches mewn gwledydd eraill. Llun gan HIA.

Gallai rhodd ariannol o £10 gyflenwi citiau hylendid i un person am fis. Gallai £50 roi blancedi i bedwar teulu. Gallai £100 roi bwyd brys i ddau deulu am fis.

I gyfrannu at Apêl Cymorth Cristnogol ewch i: <https://www.christianaid.org.uk/appeals/emergencies/ukraine-crisis-appeal>

Cymdeithas y Beibl yn ymateb i alw cynyddol am Feiblau yn Wcráin



Er gwaethaf y rhyfel yn Wcráin, mae cenhadaeth y Beibl nid yn unig yn parhau yno, ond mae wedi ehangu. Mae arweinydd Cymdeithas y Beibl yn Wcráin, Oleksandr (wedi ei ynganu fel Alexander), yn dweud bod pobl sy'n ofni am eu bywydau eu hunain ac am fywydau anwyliaid yn troi at yr Arglwydd mewn niferoedd cynyddol.

O Kyiv, fe ddywed: 'Mae eglwysi'n llawn o bobl sydd am weddio ac am ddarganfod cysur. Mae pobl yn ymweld â ni yn ddyddiol, yn ysu am gael Beiblau. Ond mae ein stoc am y flwyddyn gyfan bron â dod i ben. Mae pobl yn cymryd beth bynnag sydd gennym. Fe wnaeth un bugail bledio am Feiblau oedd wedi cael peth difrod neu hyd yn oed rai â thudalennau ar goll.'

Ychwanegodd Oleksandr fod tîm Cymdeithas y Beibl yn Kyiv wedi derbyn tocyn milwrol arbennig i deithio o gwmpas y ddinas er mwyn dosbarthu cymorth sylfaenol a Beiblau. Anfonodd fideo ohono yng nghefn fan oedd yn cynnwys Beiblau i blant. Fe ddisgrifiodd yrrwr y fan fel arwr, wrth iddo fentro'i fywyd yn gyrru drwy'r strydoedd yn dosbarthu Beiblau. (Mae'r fideo ar gael i'w wyllo ar wefan Cymdeithas y Beibl: <https://www.biblesociety.org.uk/latest/news/bibles-and-aid-distributed-across-ukraine/>.)

Mae gweithwyr eraill Cymdeithas y Beibl yn ne Wcráin yn dosbarthu Beiblau a chymorth sylfaenol i bobl mewn ysbtyai a llochesi rhag bomiau. Wrth i fomiau ffrwydro o'u cwmpas, mae'r bobl yma'n

cydio yn y Beiblau sydd newydd gael eu rhoi iddynt. Drwy air Duw, maent yn darganfod nerth a gobaith.

Mae geiriau Salm 31 wedi dod yn fantra i bobl Wcráin:

13 Oherwydd clywaf lawer yn sibwrdd, y mae dychryn ar bob llaw; pan ddônt at ei gilydd yn f'erbyn y maent yn cynllwyn i gymryd fy mywyd.

14 Ond yr wyf yn ymddiried ynot ti, ARGWLWYDD, ac yn dweud, "Ti yw fy Nuw."

(Salm 31:13–14; BCND 2004)

Mae tîm Cymdeithas y Beibl yn Wcráin yn diolch ichi am eich gweddïau. Anewch chi weddio y bydd yr ymladd yn gorffen yn fuan ac y bydd mwy o bobl yn darganfod gobaith drwy'r Ysgrythurau?

Mae nifer o asiantaethau'n darparu cymorth dyngarol, sydd mor bwysig. Ond am Feiblau, mae pobl Wcráin yn dibynnu ar haelioni cefnogwyr Cymdeithas y Beibl.

Os ydych chi am helpu i gael mwy o Feiblau i Wcráin, ewch i wefan Cymdeithas y Beibl – [biblesociety.org.uk/ukrainechurch](https://www.biblesociety.org.uk/ukrainechurch) neu gallwch gysylltu â Meleri Cray.

Diolch yn fawr.

Dydd Gweddi'r Byd 2022

Merched Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon oedd yn gyfrifol am wasanaeth Dydd Gweddi'r Byd a drefnwyd eleni ar y thema: 'Oherwydd myfi sy'n gwybod fy mwriadau a drefnaf ar eich cyfer' (Jeremeia 29:11). Bu cyfeiriadau arbennig at edifeirwch ein gwledydd am ein rhan yn gormesu gwledydd eraill ar hyd y canrifoedd. Cafwyd hefyd weddiâu arbennig dros bobl Wcráin,

ac roedd llawer iawn o'r byrddau a baratowyd fel ffocws ar gyfer y gwasanaeth yn cynnwys llieniau glas a chennin Pedr, sef lliwiau baner Wcráin. Dyma rai lluniau o fannau gwahanol yng Nghymru a fu'n cynnal y gwasanaeth arbennig hwn yn ystod penwythnos cyntaf Mawrth eleni.



Gwasanaeth undebol eglwysi Cymraeg Caerdydd yn y Tabernacl



Recordio'r gwasanaeth yn Llanuwchllyn



Oedfa undebol hybrid yn Eglwys Crist, Caerfyrddin




Capel Pisgah, Talgarreg



Y rhai gymerodd ran yn y gwasanaeth dwyieithog yn Soar, Nercwys



Capel Hermon, Cynwil, Sir Gâr



Y bwrdd wedi ei osod yn y gwasanaeth Cymraeg yn Eglwys Mechell, Cemaes, Môn.



Capel Bryngwenith, Henllan, Castellnewydd Emlyn



Capel Brynmoriah, Brynhoffnant



Cana, Bancyfelin, Sir Gaerfyrddin



Y bwrdd wedi ei hulo'n barod yn Seion, Capel Seion ger Aberystwyth

Eisteddfod yr Urdd, Sir Dinbych 2022: Pabell yr Eglwysi ac Ysgolion Sul

Cynhelir cyfarfod o dan nawdd Cytûn: eglwysi ynghyd yng Nghymru a Chyngor yr Ysgolion Sul am 7.00y.h. nos Fercher, 6 Ebrill, yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog, i drafod presenoldeb a chenhadaeth yr eglwysi ar faes Eisteddfod yr Urdd yn Ninbych eleni.

Wedi gohirio'r Eisteddfod y ddwy flynedd ddiwethaf hyn, mae'n gyffrous dechrau cynllunio eto ar gyfer yr ŵyl, gyda'r cyhoeddiad hefyd y bydd mynediad am ddim i bawb eleni.

Cynhelir Eisteddfod yr Urdd rhwng 30 Mai a 4 Mehefin ar gyrion tref Dinbych, ac yn ôl yr arfer bydd gan yr enwadau stondin/uned yno, ynghyd ag uned arall gan Gymorth Cristnogol.

Fe'ch gwahoddir i gyfarfod er mwyn trafod syniadau / thema, ac i drafod pa weithgarwch lleol y gellir ei gynnwys o fewn y babell. Bydd angen gwirfoddolwyr hefyd yn y stondin i groesawu a chynnal gweithgareddau fel gwneud bathodynau a pheintio wynebau. Byddem yn gwerthfawrogi petai modd i chi hefyd rannu'r neges hon mor eang â phosib â'ch cysylltiadau lleol. Croeso cynnes i bawb.

Am fanylion pellach, cysylltwch ag Aled Davies ar 07894580192 neu aleddavies@cytun.cymru.



Llongyfarchiadau

Llongyfarchiadau i'r Parch O. J. Roberts (Conwy gynt), Corwen, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 100 oed ar 17 Mawrth eleni. Rydym i gyd fel Cyfundeb yn ymfalchio yn y newyddion ac yn cydlawenhau â Mr Roberts, fu'n weinidog mor gymeradwy ac uchel ei barch o fewn yr eglwys. Pen-blwydd hapus a bendithiol iddo, gyda'n gwerthfawrogiad am oes o wasanaeth. Braint ar eich rhan oedd anfon cyfarchion iddo.

*Evan Morgan
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol*



Y Parch. Eric Greene yn cyflwyno tystysgrif i'r Parch. O. J. Roberts am gwblhau 70 mlynedd yn y weinidogaeth, hydref 2021

Cydymdeimlo

Dymuna Bwrdd Ymddiriedolwyr Undeb Bedyddwyr Cymru a thîm golygyddol Cenn@d estyn eu cydymdeimlad dwysaf â'r Parchedigion Judith a Wyn Morris a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam a mam-gu annwyl, sef Mrs Margaret Flook, Pontardawe. Gweddïwn y byddwch yn derbyn o fendith a chysur yr efengyl yn eich galar a'ch hiraeth.

Y Gymdeithasfa yn y De



Cynhelir Cymdeithasfa'r De ddydd Mercher, 30 Mawrth, yn y Tabernacl, Aberaeron. Mae'r capel wedi'i leoli yn Stryd y Tabernacl yng nghanol y dref, ac mae llefydd parcio yn agos ato. Bydd te a choffi ar gael am 9.30 o'r gloch, a'r eisteddiad cyntaf yn dechrau am 10.00 y bore.

Bydd hon yn sasiwn hybrid. Mae croeso i chi i ddod i'r cyfarfodydd wyneb yn wyneb, neu gallwch ymuno trwy Zoom. Edrychwch ymlaen at gael eich cwmni lle bynnag y byddwch. Yn nes at y dyddiad, anfonir dolen atoch fel y gallwch ymuno â ni ar Zoom.

Os ydych yn dymuno presenoli eich hunain yn y capel, a fyddwch cystal â gadael i mi wybod erbyn 23 Mawrth, er mwyn trefnu lluniaeth yn ystod y dydd?

Byddwn yn llongyfarch gweinidogion a blaenoriaid yn ystod Gwasanaeth y Cymun Bendigaid yn yr eisteddiad cyntaf, ac yn cyflwyno tystysgrifau iddynt.

Bydd Llywydd y Gymanfa Gyffredinol yn ein cyfarch ac yn rhannu sylwadau â ni ar ddechrau'r ail eisteddiad yn y prynhawn

Gweddïwn am arweiniad yr Arglwydd ar yr holl weithgareddau.

Yr eiddoch yng Nghrist,

*R. Anthony Platt
Ysgrifennydd y Gymdeithasfa*

Ewch i www.ebcpcw.cymru/cy/cyfarfod-cymderithasfar-de am ragor o wybodaeth



Y Frenhines Elizabeth I a Blanche Parry

Pan anwyd Elizabeth yn 1533, penodwyd Blanche Parry, menyw ifanc 26 oed, i ofalu amdani. Roedd Blanche Parry (Blanche ap Harry) yn dod o Bacton yn Swydd Henffordd ac yn siarad Cymraeg. Mae sôn fod Blanche efallai'n canu hwiangerddi Cymraeg i'r baban Elizabeth yn ei chrud. Beth bynnag, fe ddysgodd Elizabeth siarad Cymraeg yn ogystal â Saesneg, ac yn ddiweddarach fe ddysgodd sawl iaith arall: Sbaeneg, Eidaleg, Groeg, Lladin a Ffrangeg.

Pan ddaeth Mari, chwaer Elizabeth, yn frenhines yn 1553, roedd bywyd Elizabeth mewn perygl am fod Mari yn casáu mam Elizabeth, Anne Boleyn, ac yn credu fod Elizabeth yn blentyn anghyfreithlon. Anfonwyd Elizabeth i Dŵr Llundain, ac aeth Blanche yno gyda hi. Arhosodd Blanche wrth ochr Elizabeth drwy gydol ei bywyd. Mae'n debyg y byddai'r ddwy yn siarad Cymraeg â'i gilydd pan oeddent am siarad yn gyfrinachol. Yn 2015 darganfuwyd mai un o wisgoedd y Frenhines Elizabeth oedd lliain allor eglwys Bacton. Dyma'r unig wisg o eiddo'r Frenhines sydd wedi goroesi – rhodd oddi wrth Elizabeth i Blanche Parry, neu i'r eglwys er cof am Blanche, mae'n siŵr. Mae'r wisg nawr yn Hampton Court.

Cyfieithiad Lladin o'r Beibl, y Fwlgat, yr oedd yr Eglwys Babyddol yn ei ddefnyddio yr adeg yma. Roedd yr Eglwys Babyddol ym Mhrydain yn gwrthwynebu cyfieithu'r Beibl i'r Saesneg, ac felly, ar ôl i William Tyndale gyfieithu'r Testament Newydd i'r Saesneg yn 1525, rhoddwyd pris ar ei ben a bu raid iddo ffoi i Ewrop. Ond fe'i daliwyd yn Antwerp a'i llosgi wrth y stanc yn 1535.

Ar ôl i Harri VIII osod ei hunan yn bennaeth ar yr Eglwys yn lle'r Pab, er mwyn priodi Anne Boleyn, bu cyfnod erchyll o erlid ar Babyddion a Phrotestaniaid, yn dibynnu ar bwy oedd yn teyrnasu. Credir i Harri VIII ladd 57,000 o bobl (mae rhai haneswyr yn awgrymu cynifer â 72,000) am wrthod ei dderbyn fel pennaeth yr Eglwys. Cafodd ei ferch, Mari, ei galw'n 'Bloody Mary' oherwydd ei herlid ffyrnig ar Brotestaniaid. Un o weithredoedd cyntaf Mari fel brenhines oedd llosgi 280 o Brotestaniaid i farwolaeth.

Pan ddaeth Elizabeth yn frenhines, roedd hi'n ymwybodol fod Pabyddion yn ei chasáu, ond roedd am gael terfyn ar yr holl erlid a lladd a fu o'i blaen. Un ffordd o geisio tawelu'r cweryla a chael undod crefyddol oedd cael y Beibl mewn iaith ddealladwy i bawb. Heddiw, byddem yn dweud 'cael pawb i ganu o'r un llyfr emynau'.

Ar ôl gosod ei hunan yn bennaeth ar yr Eglwys ym Mhrydain, newidiodd Harri VIII ei feddwl am gyfieithu'r Beibl, ac yn 1539 cyhoeddwyd cyfieithiad Saesneg Myles Coverdale o'r Beibl, a elwid y Beibl Mawr (the Great Bible). Gyda'r holl erlid a fu yn y blynyddoedd dilynol, does dim sicrwydd faint o ddefnydd a fu ar y Beibl Mawr newydd. Ond pan ddaeth Elizabeth i'r orsedd, fe orchynnodd yn 1559 – ail



Llun: Wikipedia

flwyddyn ei theyrnasiad – y dylai pob eglwys gael copi o'r Beibl Saesneg er mwyn i'r werin gyffredin ei ddeall.

Fe ddaeth y cysylltiad rhwng y Frenhines Elizabeth a'r Gymraeg yn arwyddocaol iawn pan orchynnodd Elizabeth yn 1563 y dylid cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg. Nid rhoi caniatâd wnaeth Elizabeth, ond gorchymyn cyfieithu'r Beibl. Felly, cyhoeddodd William Salesbury ei gyfieithiad Cymraeg o'r Testament Newydd yn 1567, ond roedd ei sillafu od o'r Gymraeg yn rhwystr i'w ddarllen. Roedd angen cyfieithiad mwy cywir, mwy naturiol, ac fe syrthiodd y baich ar ysgwyddau'r ysgolhaig William Morgan, ficer tlawd Llanrhaeadr-ym-Mochnant. Cyhoeddwyd Beibl Cymraeg William Morgan yn 1588, a gorchynnodd Elizabeth y dylai pob eglwys yng Nghymru gael copi o'r Beibl yn y Gymraeg.

Mae'n sicr mai cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg yw'r rheswm pam ein bod yn dal i siarad Cymraeg heddiw. Yn 1588, pan gyhoeddwyd Beibl William Morgan, roedd yr Albanwyr yn siarad Gaeleg ac roedd pobl Cernyw yn siarad Cernyweg. Erbyn heddiw mae'r ddwy iaith bron wedi llwyr ddiplannu. O 1588 ymlaen, am y tro cyntaf, gallai gwerin Cymru glywed y Beibl yn cael ei ddarllen bob dydd Sul mewn iaith glir, ddealladwy.

Pan ddechreuodd Griffith Jones, Llanddowror, ei ysgolion cylchynol yn y 1730au, Beibl William Morgan oedd y llyfr a ddefnyddid fel testun darllen. A phan ddechreuodd Thomas Charles fudiad yr ysgolion Sul yn y ganrif ddilynol, y Beibl oedd y llyfr a ddefnyddid i ddysgu pobl Cymru sut i ddarllen ac ysgrifennu. Pwrpas ysgolion Griffith Jones a Thomas Charles oedd rhoi modd i werin Cymru ddarllen y Beibl yn eu cartrefi eu hunain. Nid rhywbeth ar ddydd Sul yn unig oedd y Beibl mwych.

Teithiodd Howell Harris ar hyd a lled Cymru yn sefydlu seiaadau (societies), lle roedd yr aelodau'n gallu darllen a thrafod

y Beibl yng nghartrefi ei gilydd. Oni bai am gyfieithiad gwych William Morgan, ni fyddai Griffith Jones wedi gallu sefydlu ysgolion cylchynol, ac ni fyddai Howell Harris wedi llwyddo gyda'r mudiad Methodistiaidd. Roedd Griffith Jones wedi cymhell yr SPCK (Society for Promoting Christian Knowledge) i argraffu miloedd o gopiau o'r Beibl yn y Gymraeg. Ar ôl clywed am ymdrech Mari Jones yn cerdded 26 milltir yn droednoeth i'r Bala yn 1800 i brynu Beibl Cymraeg ar ôl crynhoi arian am chwe blynedd, fe sefydlwyd y British and Foreign Bible Society yn 1804, i gynhyrchu Beiblau mor rhad ag oedd yn bosibl. Beiblau rhad yn y Gymraeg oedd nod cyntaf y Gymdeithas, ac yna cynhyrchwyd Beiblau mewn cannoedd o ieithoedd ledled y byd: 'Beibl i bawb o bobl y byd'.

Mae dyled enfawr arnom i William Morgan am ei gamywaith. Ond, rydym yn tueddu i anghofio pam y cyfieithodd William Morgan y Beibl. Tu cefn i William Morgan dylem ddiolch i'r Frenhines Elizabeth am orchymyn – nid rhoi caniatâd – gosod Beibl Cymraeg ym mhob eglwys yng Nghymru. Tu cefn i Elizabeth mae Blanche Parry, Cymraes fyddlon oedd wedi cadw ei hiaith er cael ei dyrchafu i ofalu am ferch y brenin. Er ei bod mewn lle dieithr yng nghanol Saeson, fe drosglwyddodd hi ei hiaith i'r plentyn dan ei gofal. Yn y pen draw, y weithred hon yw'r rheswm pam ein bod ni heddiw yn dal yn Gymry Cymraeg, a bod y Beibl wedi ei gyfieithu i gannoedd o ieithoedd er budd miliynau di-rif. Tyfodd hedyn mwstard yn goeden fawr.

John Williams

Y Gymdeithasfa yn y Gogledd

Cynhelir y Gymdeithasfa yn y Gogledd yng nghapel Rehoboth, Prestatyn, ddydd Mawrth, 5 Ebrill 2022.

Bydd yr eisteddiad cyntaf yn dechrau am 10yb, a gellir ei fynychu yn y capel neu ymuno ar Zoom.

Bydd yr ail eisteddiad yn gyfarfod cyhoeddus ac yn dechrau am 2yp. Bydd yn cynnwys Darlith Goffa'r Diwygiad, a draddodir gan Dr Rhidian Griffiths, Aberystwyth, i ddatlu daucanmlwyddiant geni Ieuan Gwyllt, a'r Gwasanaeth Cymun a Choffâd.

Dyma'r ddolen i ymuno yn yr ail eisteddiad ar Zoom:

<https://us02web.zoom.us/j/85475249743?pwd=VFk1eTl1NkcraEtSWXJNangrVFNGZz09>

Rhif cyfarfod: 854 7524 9743

Cyfrinair: 729173

Ymuno dros y ffôn:

0208 080 6592

Rhif cyfarfod: 854 7524 9743

Croeso i bawb,

Y Parch. E Richards (Ysg.)

Myfyrdod y Grawys

Cyfes o chwe astudiaeth gan Gyngor yr Eglwys Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon (CTBI)

Grawys 4

Darllen Eseia 55:4-9



Llun: Dal yr eiliad gan Angela/flickr

Edrych, rhois ef yn dyst i'r bobl, yn arweinydd a chyfarwyddwr i'r bobl. Edrych, byddi'n galw ar genedl nid adwaeni, a bydd cenedl nad yw'n dy adnabod yn rhedeg atat; oherwydd yr ARGLWYDD dy Dduw, o achos Sanct Israel, am iddo dy ogoneddu. Ceisiwch yr ARGLWYDD tra gellir ei gael, galwch arno tra bydd yn agos. Gadawed y drygionus ei ffordd, a'r un ofer ei fwriadau, a dychwelyd at yr ARGLWYDD, iddo drugarhau wrtho, ac at ein Duw ni, oherwydd fe faddau'n helaeth. Oherwydd nid fy meddyliau i yw eich meddyliau chwi, ac nid eich ffyrdd chwi yw fy ffyrdd i, medd yr ARGLWYDD. Fel y mae'r nefoedd yn uwch na'r ddaear, y mae fy ffyrdd i yn uwch na'ch ffyrdd chwi, a'm meddyliau i na'ch meddyliau chwi.

1 Rhywbeth i'w drafod gyda'n gilydd

*Weithiau byddwn yn ymddwyn ac yn siarad fel petaem yn gyfarwydd â meddwl Duw ac yn gwybod beth mae Duw ei eisiau. Sut mae'r detholiad hwn o'r Ysgrythur yn ein hatgoffa sut y dylem fod yn wyladwrus rhag mynd yn 'fi fawr'?

*Yn stori'r Santes Gwenffrewi, sut ydych chi'n meddwl fod pobl a glywodd ei hanes dros y blynyddoedd wedi ymateb i wyrth

ei hadfywiad a gwyrth y ffynnon newydd o ddŵr?

2 Rhywbeth i adfyfrio arno

*Dywed y detholiad, 'Gadewch [i'r drygionus] ddychwelyd at yr Arglwydd, iddo drugarhau iddo'. Lle'r ydych chi'n gweld hyn yn digwydd mewn cymdeithas heddiw? Sut mae pobl heddiw yn dysgu am edifeirwch a sut y gall eu bywydau gael eu trawsnewid?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, daw'r ffynnon sanctaidd yn gyrchfan pererindod a gwellhad. Pa fath o drawsnewidiad ydych chi'n meddwl y bydd pobl yn disgwyl ei brofi yno a beth fyddai eu cymhelliant dros fynd i geisio manau sanctaidd?

3 Rhywbeth i'w wneud

*Mae'r darn hwn yn ein hatgoffa ein bod yn dystion i Iesu a bod ein tystiolaeth yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i bobl eraill pan welant beth mae Duw yn ei wneud. Pa UN peth fedrwch chi ei wneud (neu ei gryfhau) yn eich sefyllfa eich hun i fod yn dyst cadarnhaol i'r Iesu a pha ddarpariaeth wnewch chi fel y gall pobl ddod i weld sut beth yw'r ffydd Gristnogol?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, gadawyd craith neu farc amlwg ar ei gwddf lle torrwyd ei phen a'i adfer yn wyrthiol. Pa UN arwydd gweledol ychwanegol fedrwn ni ei wisgo, neu osod yn ein cartrefi, neu fod gyda ni yn ein bywydau beunyddiol, fyddai'n ei gwneud yn amlwg i eraill ein bod yn Gristnogion?

4 Treiddio'n Ddyfnach

*Mae'r darlenniad hwn o lyfr Eseia yn dweud wrthym am geisio'r Arglwydd a galw arno, oherwydd bod Duw yn ein tywys ar hyd y llwybr cywir. Pryd gwnaethoch chi adael i Dduw eich tywys ac i ble mae hynny wedi eich arwain hyd yma? Ble gall Duw eich arwain yn y dyfodol?

*Yn hanes y Santes Gwenffrewi, mae Sant Beuno yn cyfarwyddo ei thaith ysbrydol tuag at fywyd sydd wedi ymroi yn llwyr i Dduw. Sut gall ei stori eich annog chi i geisio'r Duw sydd yn wastad yn ein synnu?

5 Gweddi

Arglwydd Iesu Grist,
Safwn ger dy fron, mewn parchedig ofn a gwyleidd-dra.
Gwyddom fod dy ddoethineb di y tu hwnt i'n crebwyll ni
a bod dy ddirgeleddau'n llenwi'r cread crwn.
Helpa ni i fod yn ddrych i'th ogoniant,
fel y gall eraill, trwom ni, gael cipolwg ar dy drugaredd
a throi tuag atat lle'r wyt ti'n aros i'w croesawu.
Amen.



Llun: Hchc2009 via Wikimedia Commons, CC-BY-SA 4.0



O Gefn Gwlad



Darluniau mewn geiriau

Dwi ddim eisiau swno'n ddigalon, er, dyn a wŷr, mae digon o reswm gen i fel llawer arall, mae'n siŵr, i deimlo felly. Ond hwyrach y cofiwch y cwestiwn a'r ateb sy'n gallu codi'r felan ar bawb. Cwestiwn i'r pesimist!

Sawl rhaid sydd yna i bawb mewn bywyd?
Dim ond un, sef marw.

Ie, dyna'r gwir onidê. Oddi yma yr awn, bob un wan jac ohonom. I ble? Mae eich ateb yn dibynnu ar eich cred. Ond beth bynnag yw'r ateb, rydym yn anorfod yn ei ddarlunio mewn geiriau – mewn darluniau neu drosiadau neu ddelweddau os mynnwch chi, a defnyddio disgrifiadau gramadegol am y peth.

Yr hyn wnaeth imi feddwl fel hyn oedd imi gael fy atgoffa o gyfarfod y bŵm ynddo flynyddoedd yn ôl gyda rhyw Saesnes o fyd addysg, arbenigwraig yn bendant, ond ni allaf gofio ei henw. Mewn cwrs neu gynhadledd yr oeddem, nifer ohonom o Gymru, ac fel sy'n arferol, neu felly yr oedd hi, beth bynnag, yn y cymdeithasu ar ôl swper, os byddai criw o Gymry efo'i gilydd, mi fyddai yna ganu. Ac roedd emynau ddyddiau fu yn rhan o'r rhaglen bob tro.

Gan mai yn Lloegr yr oeddem a bod mwyafrif ein cynulleidfa yn Saeson, fe roesom iddyn nhw'r parch dyledus drwy ganu ar Gwm Rhondda, nid emyn Ann Griffiths, ond geiriau Williams Pantycelyn, sy'n cynnwys y llinellau – arswydus yn wir:



LLUN: Chinh Le Duc at Unsplash

When I tread the verge of Jordan,
Bid my anxious fears subside,
Death of death, and hell's Destruction,
Land me safe on Canaan's side.

Yn y sgwrsio wedi'r perfformio mi ofynnodd y Saesnes ini oedden ni wir yn credu'r hyn roedden ni'n ei ganu, sef mai croesi afon oedd marwolaeth? Roedd o'n gwestiwn od a hithau'n ferch mor ddeallus. Cafodd ei hatgoffa, ac roedd angen hynny arni, fod sawl traddodiad – ac yn bendant draddodiadau'r Groegiaid a'r Rhufeiniaid – yn darlunio marwolaeth fel croesi afon, megis afon Styx, gyda Charon yn gychwr. Y mae dynoliaeth ar hyd y canrifoedd wedi ceisio esbonio neu ddarlunio'r anesboniadwy yn nhermau'r byd a'r bywyd hwn.

Doedd dim pwrpas i ni, wrth gwrs, ei chyfeirio at 'Hen gychwr afon angau', R. Williams Parry, a dwy linell ola ei soned:

Ond ar y dwfr sydd am y llen â'r llwch,
Ni frysia'r Cychwr canys hen yw'r cwch.

Bu bywyd yn galed i'n cyndadau, ac felly roedd eu darluniau am y byd hwn a gynrychiolidd gan weithiau beirdd ac emynwyr yn naturiol yn rhai oedd yn adlewyrchu hynny: yn grwydro'r anial maith, yn ddringo'r creigiau serth, yn ddrysu mewn rhwydau, a'u hiraeth oherwydd hynny am fywyd gwell, nefoedd wedi uffern byw, a dyheu am gyrraedd y ddinas gadarn lle roedd Duw'n arlwyo gwledd, a chyrraedd adref i nofio mewn cariad a heddd. Wel, os mai mewn darluniau a thrwy ddarluniau yr ydym yn byw, onid llawer gwell yw'r rhai gobeithiol, ac mae digon o'r rheini ar gael hefyd. Yn hytrach na meddwl am angau fel teithio'r dyffryn tywyll, neu groesi'r afon, meddwl amdano yn nhermau Williams Pantycelyn unwaith eto falle, oedd yn aml yn gallu bod yn optimistaidd hefyd, a chofio, nid am y dyffryn tywyll a'r afon, ond am yr addewid o fore ddydd:

Mae'r hyfryd wawr yn codi draw
Yn dweud fod bore ddydd gerllaw.

A gobeithio, hwyrach, fel Siôn Aled y cawn, bob un ohonom,

deimlo traeth tangnefedd
Danaf gyda thoriad gwawr.

Ar ddarluniau o'r fath y dylsw'n i ganolbwyntio, mae'n siŵr, a pheidio bod mor drybeilig o besimistaidd!

Elfyn Pritchard

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 27 Mawrth, am 7:30yb (aillardarllidir am 11:30yb y Sul canlynol)

Yr wythnos hon byddwn yn nodi Sul y Mamau. Cawn glywed gan fam o Gwm-twrch sydd wedi teimlo tristwch yn ogystal â llawenydd ar y Sul yma, a bydd Nia ym Mangor yn clywed sut mae ffydd wedi bod yn gymorth i un fam wrth iddi fagu ei phlant. Daw'r canu o Lanelli, Treboeth, Caerdydd, Lerpwl a Sain Dunwyd.

BBC radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 27 Mawrth, am 7:30yb a 4:30yb

Cenhedloedd byd yw testun emynau'r rhaglen heddiw yn y gyfres ar amrywiol themâu gydag R. Alun Evans.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 27 Mawrth, am 12:00yb

Gwasanaeth Sul y Mamau yng ngofal Laura Karadog, Pontyberem.

Dyma gyfarfod hyfryd iawn

Bywyd newydd sbon

Eryn 313 'Gwn pa le'

Cyn bod sôn am Walt Disney a'i ffilmiau cyffrous i blant roedd storïau *Mil ac un o nosau Arabia* ac anturiaethau Aladin yn adnabyddus i genedlaethau o ddarllenwyr. Yn stori Aladin caed twyllwr a geisiai ddarganfod lamp hud trwy gynnig 'lampau newydd am hen lampau'.

Yn ganolog i'n ffydd y mae'r addewid bod modd cyfnwid hen fywydau am fywyd newydd yn Iesu Grist. Drwy ras Duw cyhoeddwn fod yn Iesu Grist faddeuant am bob trosedd, cam a phechod sydd ar gael ynom.

Dyma'r rhyfeddod sy'n llenwi calon y Salmydd.

Darllen Salm 32 'Llawenydd i'r edifeiriol'

Gweddi

Arglwydd, hoffem ddynesu atat, ond ofnwn fod y camwedd sy'n pwyso arnom wedi ein cuddio oddi wrthyt. Trugarha wrth galonnau sy'n ei ffeindio hi'n anodd cydnabod bai ac edifarhau. 'A dywed air dy hunan / wrth f'enaid, clwyfus, trist, / dy fod yn maddau 'meiau, / yn haeddiant Iesu Grist'. Amen.

Darllen Luc 15:1-3, 15b-32 'Llawenhau yn nhrugaredd y Tad'

Mae'n fwy na phosib i ni sy'n darllen am y 'Mab Afradlon' fethu ergyd y ddameg yn llwyr. Faint o weithiau glywsom ni am y brawd ieuengaf a wastraffodd ei gyfoeth drwy ei afradlonedd? Mae'n rhywdd disgrifio cyflwr y truenus a'i angen am edifeirwch a maddeuant. Mae'n rhywdd canolbwyntio'n hunangyfiawn braidd ar droseddau amlwg yr 'afradlon' ym mhob oes ac am angen pobl eraill i edifarhau. Ac mae'n iawn i ni gyhoeddi'n llawen fod croeso bob amser i'r 'afradlon' edifeiriol, pan ddychwelwn at ein Tad nefol.

Cynulleidfa

Dywed Luc wrthym, fodd bynnag, fod geiriau Iesu wedi eu llefaru mewn cydestun arbennig. Yn 15:1-3, disgrifir y gynulleidfa a wrandawodd ar Iesu fel 'casglwyr trethi a phechaduriaid', dieithriaid i fywyd Rabiniaid a chrefyddol eu hoes. Pobl ar gyrion crefydd oeddent, a phobl a wynebodd ddirmyg y sefydliad crefyddol. Yng ngolwg y sefydliad crefyddol hwnnw roedd parodrwydd Iesu i eistedd a bwyta gyda'r fath bobl yn cadarnhau eu rhagfarnau amdano.

Pechaduriaid ... a'r Tad

Dameg am fywyd newydd yn lle hen fywyd yw hon. Gwyddai'r mab afradlon ei fod wedi troseddu a siomi ei dad. Gwyddai ei wrandawyr pa mor bell o'u cartref yr oeddent hwythau, a body 'plisg' yr oeddent yn byw arno yn annigonol i'w bodloni. Roedd arnynt angen clywed bod ffordd adre at y Tad, bod croeso a derbyn iad i'r edifeiriol.

Yn y ddameg disgrifia Iesu'r Tad fel un a 'welodd' ei blentyn 'o bell'. Er i'r afradlon betruso, yn groes i gonfensiynau urddas a pharch ei ddydd, 'rhedodd' y Tad i'w groesawu. Heb ddicter, heb gyfrif ei droseddau i'w erbyn, cofleidiodd yr afradlon, ei wisgo â'r wisg orau, a llanwyd y cartref â gwledda llawen. Ar ei ddychweliad, maddeuwyd bai'r afradlon, adferwyd perthynas, trodd perthynas farw yn berthynas fyw. Nid geiriau diystyr i'r un a ddychwelodd oedd y sôn am gariad y Tad. Wrth ddychwelyd yn edifeiriol profodd gariad ei dad, a gwyddai fod y cariad hwnnw'n gariad adferol, anhaeddiannol a gwirioneddol.

Y Phariseaid ... a'r Tad

Pwy ohonom na fyddai'n cydymdeimlo â'r brawd mawr? Onid oedd y brawd ieuengaf wedi gwario'i etifeddiaeth, gwastraffu'r cyfoeth a dianrhydeddu'r tad a'i deulu? Fyddech chi'n fodlon colli hanner eich etifeddiaeth i un oedd eisoes wedi gwastraffu ei hanner?

Digiodd y brawd hynaf wrth haelioni ei dad. Cyn belled ag yr oedd efn y cwestiwn, rhaid bod ei lafur, ei ymdrech a'i ffyddlondeb yn haeddu rhyw gydnabyddiaeth gan y Tad.

Trafferth fawr y brawd hynaf oedd hyn. Er iddo dreulio'i oes ym mhethau'r Tad, nid ymfalchiodd erioed mewn adnabyddiaeth, na chariad, na pherthynas hael y Tad. Ni ddeallodd erioed fod y Tad yn ei garu fel ag yr oedd a bod 'y cwbl sydd gennyf yn eiddo i ti'. Ni sylweddolodd faint y cariad tadol ac ni fedrodd orffwysu yn y berthynas na'r cariad grasol hwnnw.

Tybed ai crefydd ymdrech a gweithredoedd crefyddol sy'n diffinio ein crefyddda ni? Neu a gawsom ein cyfareddu gan ryfeddod y berthynas fod 'Iesu yn geidwad i mi'?

Darllen 2 Corinthiaid 5:16-21

Er y medrem dreulio miloedd o eiriau'n trafod ystyr y geiriau hyn, nid yma mae dechrau'r drafodfaeth fanwl honno. Tybed, fodd bynnag, os gosodwn eiriau'r Apostol Paul ochr yn ochr â dameg y Mab Afradlon

na chawn ni gipolwg ar ryfeddod addewid yr efengyl?

Hen a newydd

Gwyrth gras yn syml yw hyn. Pan ddown i ffydd 'yng Nghrist', yn ôl asesiad Duw ei hun, down yn 'greaduriaid newydd'. Ni olyga hyn y bydd yr un mewnblyg yn sydyn yn troi'n allblyg ayyb. Golyga, fodd bynnag, ein bod yn 'greadigaeth newydd' oherwydd ein perthynas â Duw. Cawsom olwg newydd ar Dduw. Cawsom gyfeiriad newydd i'n bywydau a derbyniadom gartref tragwyddol nad yw o waith llaw gan Dduw. Aeth yr hen ddieithrwch heibio: y dieithrwch o wybod nad oedd hawl, na statws, na pherthynas â'r Tad yn bosib drwy ein hymdrechion ein hunain. Plant y 'wlad bell' yw pob Cristion.

Deallwn hefyd mai gweithgarwch Duw a'n cymododd ag ef ei hun drwy Iesu Grist. Sylwer nad cymodi Duw gyda ni wna'r efengyl. Ein cymodi ni gyda Duw yw gwyrth ei ras. Dyma'r gras a groesawodd elynion a'u derbyn yn blant iddo.

Tybed pwy ddywedodd wrth y Mab Afradlon fod ei Dad yn chwilio amdano? Pa faint fwy sydd yna na'n bod ni fel unigolion a chynulleidfa oedd yn cael rhannu'r newyddion da fod cymod yn bosib?

Ar sail trugaredd y Tad croesawyd yr Afradlon. Ni chyfrifodd ei drosedd i'w erbyn, ond mynnodd wynebu cost yr adferiad ar ei draul a'i gyfrif ei hun. Mae maddeuant bob amser ar draul yr un sy'n dewis maddau; nid yw'r un sy'n derbyn maddeuant byth ar ei golled. Ar Galfaria gwelwn ffeidd-dra canlyniadau ein gwrthryfel: y dieithrwch, y pellter, a'r farwolaeth a ddaw yn ei sgil. Ond... 'Yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun'. Ar Galfaria daeth Iesu yn bechod drosom. Llyncodd y dieithrwch a'n gwahanodd oddi wrth y Tad; llanwodd y pellter oedd rhyngom; concrodd farwolaeth ei hun drosom ni ac er ein mwyn. Ac yn lle'r felltith cawn ein gwisgo â'i gyfiawnder.

Diolch Iddo!

Gweddi

Arglwydd cyfiawn, diolchwn i ti fod gwahoddiad i bobl fel ni ddyfod atat i ganfod ac i dderbyn bywyd newydd, cyflawn drwy Iesu Grist. Caniatâ i ninnau glywed y gwahoddiad hwnnw, a dyro i ni galonnau sy'n medru ymateb â gostyngieddrwydd llawen i'th lais, drwy dy Ysbryd Glân. Amen.

Eryn 331 'Pa le, pa fodd?'

RWJ

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

watcyn@cennad.cymru | hww@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru | [f CennadCymru](https://www.facebook.com/CennadCymru) | [@CennadCymru](https://www.instagram.com/CennadCymru)